Prifnewyddion

Cylchlythyr y Dreth Gyngor 2023

Treth Gyngor 2023/24

Manylion y Gwariant Cyfalaf a Refeniw ar Wasanaethau

Mae Cyllideb 2023/24 wedi'i gosod mewn amgylchedd economaidd heriol gan arwain at bwysau sylweddol ar wasanaethau, o ran chwyddiant a galw. Mae Cyllideb y Cyngor yn cynnwys dau brif faes - Refeniw (gwariant o ddydd i ddydd) a Chyfalaf (buddsoddiad mewn isadeiledd).

Er gwaethaf yr hinsawdd heriol, mae'r Gyllideb Refeniw a'r Rhaglen Gyfalaf yn cefnogi'r blaenoriaethau Cryfach, Tecach, Gwyrddach ar gyfer y ddinas. Maent hefyd yn ystyried yr adborth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad, a amlygodd y canlynol fel y tair prif flaenoriaeth i ddinasyddion ar gyfer ariannu: 1) Ysgolion, 2) Plant a Theuluoedd Agored i Niwed a 3) Oedolion Agored i Niwed. Mae pob un yn flaenllaw yn y Gyllideb Refeniw a'r Rhaglen Gyfalaf.

Amcangyfrifir y bydd yn costio dros £76.4 miliwn yn fwy i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau yn 2023/24. Ond hyd yn oed gyda chynnydd ariannol o 9% gan Lywodraeth Cymru, £52.2 miliwn o gyllid ychwanegol fydd ar gael i helpu i dalu'r costau hyn - gan adael bwlch o £24.2 miliwn. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, wrth osod y gyllideb, mae'r rhan fwyaf o'r bwlch yn y gyllideb wedi'i bontio drwy arbedion (£17.7m). Mae'r gweddill wedi ei dalu drwy gynnydd o 3.95% yn y Dreth Gyngor (£6.5m). Mae'r cynnydd, sy'n llawer is na'r lefelau chwyddiant presennol, yn cyfateb i £1.01 yr wythnos yn ychwanegol ar eiddo Band D.

Mae'r Cyngor wedi parhau i roi pwyslais cryf ar arbedion effeithlonrwydd - mewn geiriau eraill arbedion sy'n darparu'r un peth (neu fwy) am lai o adnoddau heb unrhyw effaith ar y preswylydd / cwsmer. Mae arbedion effeithlonrwydd gwerth £10.1 miliwn y gyfarwyddiaeth yn rhan o Gyllideb 2023/24, ac mae'r rhain yn eistedd ochr yn ochr ag arbedion a mesurau corfforaethol pellach, gwerth £4.8 miliwn. Fodd bynnag, mae maint y bwlch yn y gyllideb yn golygu y bu'n rhaid gwneud gwerth £2.8 miliwn o arbedion sy'n cael effaith ar wasanaethau (cynigion newid gwasanaethau).

Mae'r cynigion newid gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb yn gyson â chanfyddiadau ymgynghoriad cyllideb chwe wythnos y Cyngor a arweiniodd at bron i 6,000 o ymatebion. Maen nhw'n cynnwys cynnydd i brisiau gwasanaethau â thâl, fel ffioedd meysydd chwarae (63% o gefnogaeth), parcio talu ac arddangos (66% o gefnogaeth) a phrofedigaeth (63% o gefnogaeth). Maent hefyd yn cynnwys newidiadau i'r gwaith o weithredu rhai gwasanaethau, gan gynnwys Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd (77% o gefnogaeth), Neuadd Dewi Sant (59% o gefnogaeth), cau canolfannau ailgylchu un diwrnod yr wythnos (46% o gefnogaeth) a defnydd cynyddol o wirfoddolwyr mewn Hybiau (yr opsiwn mwyaf poblogaidd o'r ymgynghoriad). Mae adborth y broses ymgynghori hefyd wedi arwain at gyfyngu'r cynnydd mewn prisiau prydau ysgol i 5% - llawer yn is na'r cynnydd cymharol yn y gost.

Er yr amgylchiadau heriol, mae Cyllideb Refeniw 2023/24 y Cyngor yn cynnwys £25 miliwn (+9.3%) o gyllid ychwanegol ar gyfer Ysgolion. Yn gyson ag adborth yr ymgynghoriad, nid oes angen i ysgolion gyfrannu arbedion effeithlonrwydd. Mae'n cynnwys cyllid ychwanegol net gwerth £23 miliwn (+10.8%) i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae yna hefyd fuddsoddiad ychwanegol gwerth £2.0m mewn mentrau Cryfach, Tecach, Gwyrddach, gan gynnwys digwyddiadau cymunedol a diwylliannol, gweithgareddau i blant a phobl ifanc, rhaglen interniaeth, a chynlluniau i gefnogi lleihau carbon ac aer glân.

Mae Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2023/24 – 2027/28 yn ailddatgan ei ymrwymiad i fuddsoddiad sylweddol yn nyfodol y ddinas. Mae cefnogaeth i dai fforddiadwy (£510 miliwn), buddsoddiad mewn adeiladau ysgol newydd a phresennol (£322 miliwn), yn ogystal â chyllid ar gyfer canolfannau ieuenctid ac adfywio cymdogaethau. Mae'r rhaglen yn buddsoddi mewn gwell seilwaith trafnidiaeth, teithio llesol, gwella ansawdd yr aer a mynd i'r afael ag erydu arfordirol. Mae hefyd yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer mentrau datblygu economaidd gan gynnwys yr Arena newydd a'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol, a ariennir yn bennaf drwy gyfraniadau datblygwyr.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn tynnu sylw at y ffaith y bydd y Cyngor, dros y pedair blynedd ar ôl 2023/24, yn wynebu bwlch cyllidebol pellach o £113.4 miliwn, oherwydd pwysau ariannol sy'n fwy na'r cyllid a ragwelir, a bydd angen mynd i'r afael â £40.5 miliwn yn 2024/25. Wrth weithio i gau'r bwlch hwn, bydd y Cyngor yn parhau i geisio gwella'r modd y mae'n darparu gwasanaethau a, thrwy ymgysylltu'n barhaus â dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill, bydd yn ystyried ei flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol yn ofalus.

AA
(Ardrethi Annomestig)

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y gyfradd ar **53.5p** yn y **£**

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF
CAERDYDD

Sut y Cyfrifir eich Bil

Y cyfanswm y byddwch yn ei dalu=

+1. Treth Gyngor Caerdydd

+2. Comisiynydd Heddlu a Trosedd ar gyfer De Cymru

+3. Treth y Cyngor Cymuned

	A	B	C	D	E	F	G	H	I
	£	£	£	£	£	£	£	£	£
1. Cyngor Caerdydd	924.98	1,079.14	1,233.31	1,387.47	1,695.80	2,004.12	2,312.45	2,774.94	3,237.43
2. Comisiynydd Heddlu a Trosedd ar gyfer De Cymru	216.31	252.37	288.42	324.47	396.57	468.68	540.78	648.94	757.10
3. Cynghorau Cymuned									
Llys-faen	15.59	18.18	20.78	23.38	28.58	33.77	38.97	46.76	54.55
Pentyrch	35.07	40.91	46.76	52.60	64.29	75.98	87.67	105.20	122.73
Radur a Phentre-poeth	26.11	30.47	34.82	39.17	47.87	56.58	65.28	78.34	91.40
Sain Ffagan	16.14	18.83	21.52	24.21	29.59	34.97	40.35	48.42	56.49
Pentref Llaneirwg	14.67	17.11	19.56	22.00	26.89	31.78	36.67	44.00	51.33
Tongwynlais	19.77	23.07	26.36	29.66	36.25	42.84	49.43	59.32	69.21

Beth Fyddwch chi'n ei Dalu

	A	B	C	D	E	F	G	H	I
	£	£	£	£	£	£	£	£	£
Llys-faen	1,156.88	1,349.69	1,542.51	1,735.32	2,120.95	2,506.57	2,892.20	3,470.64	4,049.08
Pentyrch	1,176.36	1,372.42	1,568.49	1,764.54	2,156.66	2,548.78	2,940.90	3,529.08	4,117.26
Radur a Phentre-poeth	1,167.40	1,361.98	1,556.55	1,751.11	2,140.24	2,529.38	2,918.51	3,502.22	4,085.93
Sain Ffagan	1,157.43	1,350.34	1,543.25	1,736.15	2,121.96	2,507.77	2,893.58	3,472.30	4,051.02
Pentref Llaneirwg	1,155.96	1,348.62	1,541.29	1,733.94	2,119.26	2,504.58	2,889.90	3,467.88	4,045.86
Tongwynlais	1,161.06	1,354.58	1,548.09	1,741.60	2,128.62	2,515.64	2,902.66	3,483.20	4,063.74
Ardaloedd Eraill	1,141.29	1,331.51	1,521.73	1,711.94	2,092.37	2,472.80	2,853.23	3,423.88	3,994.53

GALL CARTREFI AG UN OEDOLYN YN UNIG HAWLIO GOSTYNGIAD O 25 %

Bandiau'r Dreth Gyngor

Mae'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar werth marchnad agored anheddau domestig ar 1 Ebrill 2003. Yr Asiantaeth Brisio sy'n penderfynu ar werth annedd. Yn seiliedig ar brisiant yr Asiantaeth ar annedd penodol, fe'i gosodir yn un o'r naw band prisio A-I sy'n penderfynu ar y dreth gyngor sy'n daladwy mewn perthynas â'r eiddo.

Band Prisio	Ystod gwerthoedd ar 1 Ebrill 2003	Y Dreth Gyngor sy'n daladwy fel canran cost Band D
A	Heb fod yn fwy na £44,000	6/9
B	£44,001 - £65,000	7/9
C	£65,001 - £91,000	8/9
D	£91,001 - £123,000	9/9
E	£123,001 - £162,000	11/9
F	£162,001 - £223,000	13/9
G	£223,001 - £324,000	15/9
H	£324,001 - £424,000	18/9
I	Gwerthoedd sy'n fwy na £424,001	21/9

I gael rhagor o wybodaeth am eich band, neu i apelio yn ei erbyn, ewch i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar **www.gov.uk/contact-voa neu ffoniwch 03000 505505**

Archebiannau'r Cyngor Cymuned

2022/23 £		2023/24 £
61,000	Llys-faen	67,000
185,000	Pentyrch	189,623
130,921	Radur a Phentre-poeth	158,921
42,000	Sain Ffagan	47,000
51,665	Pentref Llaneirwg	54,665
24,500	Tongwynlais	24,500

Asesiad Gwariant Safonol

	£m
Asesiad Safonol y Cynulliad ar gyfer gwariant y Cyngor yw:	817.0
Yr Union Gyllid a gymeradwyir gan y Cyngor yw:	802.0

Os ydych chi'n credu y gallech fod yn gymwys i hawlio gostyngiad y dreth gyngor ewch i www.caerdydd.gov.uk/trethgyngor am ragor o wybodaeth.

Newidiadau mewn Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn

	Brasamcan o'r Balans 31.3.2023	Symudiadau Arfaethedig yn 2023/24	Brasamcan o'r Balans 31.3.2024
	£000	£000	£000
Cronfa Refeniw Cyffredinol	14,255	0	14,255
Cronfeydd wedi'u Clustnodi	110,332	(16,074)	94,258
Cronfa Gyffredinol HRA	15,502	0	15,502
Cronfeydd HRA	10,200	250	10,450
	150,289	**(15,824)**	**134,465**

Gwariant a Chyllid Cyfalaf 2023/24

Gwariant:	£000
Cronfa Gyffredinol	202,927
Tai Cyhoeddus	111,000
CYFANSWM Y GWARIANT	**313,927**
Ariannwyd gan:	**£000**
Benthyca	153,670
Derbyniadau Cyfalaf	13,377
Grantiau a Chyfraniadau a Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr	139,770
Adnoddau Eraill y Cyngors	7,110
CYFANSWM Y CYLLID	**313,927**

Gwariant Refeniw 2022/23

Dadansoddiad fesul Cyfarwyddiaeth	Gwariant Gros £000	Incwm £000	Gwariant Gros £000
Rheolaeth Gorfforaethol	18,242	(101)	18,141
Datblygu Economaidd	47,970	(38,942)	9,028
Gwasanaethau Ailgylchu a Chymdogaeth	46,587	(10,724)	35,863
Addysg	367,236	(58,489)	308,747
Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd	57,378	(49,676)	7,702
Tai a Chymunedau	258,725	(213,056)	45,669
Perfformiad a Phartneriaethau	9,218	(5,797)	3,421
Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion	162,740	(30,078)	132,662
Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant	87,064	(8,735)	78,329
Awdurdod Harbwr Caerdydd	6,254	(6,254)	0
Cyfrif Refeniw Tai	91,643	(91,643)	0
Gwasanaethau Llywodraethiant a Chyfreithiol	7,985	(1,181)	6,804
Adnoddau	31,757	(15,879)	15,878
Cyllido Cyfalaf	35,940	(166)	35,774
Cyfrif Refeniw Cryno	26,394	(928)	25,466
Cyfanswm Gwariant y Gyfarwyddiaeth	**1,255,133**	**(531,649)**	**723,484**
Ardollau	19,862	0	19,862
Gostyngiad Treth yn ôl Disgresiwn	400	0	400
Cyfraniadau o Gronfeydd wrth gefn	0	0	0
Cyfanswm Gwariant y Cyngor	**1,275,395**	**(531,649)**	**743,746**
Grant Cynnal Refeniw			(413,544)
Ardrethi Annomestig			(131,182)
Y Dreth Gyngor			**199,020**

Mae'r cyfanswm gwariant yn cynnwys rdollau sy'n daladwy i:	**£000**
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	18,776
Awdurdod Iechyd Porth Caerdydd	118
Awdurdod Iechyd Porth Casnewydd	5
Cyfoeth Naturiol Cymru	139
Crwner	824
	19,862

Gwariant Refeniw 2023/24

Dadansoddiad fesul Cyfarwyddiaeth	Gwariant Gros £000	Incwm £000	Gwariant Gros £000
Rheolaeth Gorfforaethol	6,857	(101)	6,756
Datblygu Economaidd	51,303	(38,773)	12,530
Gwasanaethau Ailgylchu a Chymdogaeth	51,681	(11,236)	40,445
Addysg	401,237	(58,959)	342,278
Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd	63,436	(53,038)	10,398
Tai a Chymunedau	281,725	(233,360)	48,365
Perfformiad a Phartneriaethau	9,268	(6,242)	3,026
Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion	180,598	(31,487)	149,111
Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant	104,367	(14,744)	89,623
Awdurdod Harbwr Caerdydd	7,141	(7,141)	0
Cyfrif Refeniw Tai	104,089	(104,089)	0
Gwasanaethau Llywodraethiant a Chyfreithiol	8,843	(1,231)	7,612
Adnoddau	33,876	(15,576)	18,300
Cyllido Cyfalaf	38,127	(844)	37,283
Cyfrif Refeniw Cryno	16,087	(928)	15,159
Cyfanswm Gwariant y Gyfarwyddiaeth	**1,358,635**	**(577,749)**	**780,886**
Ardollau	22,608	0	22,608
Gostyngiad Treth yn ôl Disgresiwn	400	0	400
Cyfraniadau o Gronfeydd wrth gefn	0	(1,500)	(1,500)
Cyfanswm Gwariant y Cyngor	**1,381,643**	**(579,249)**	**802,394**
Grant Cynnal Refeniw			(475,312)
Ardrethi Annomestig			(118,293)
Y Dreth Gyngor			**208,789**

Mae'r cyfanswm gwariant yn cynnwys rdollau sy'n daladwy i:	**£000**
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	21,199
Awdurdod Iechyd Porth Caerdydd	152
Awdurdod Iechyd Porth Casnewydd	5
Cyfoeth Naturiol Cymru	160
Crwner	1,092
	22,608